


# Cymorth i'ch helpu i recriwtio pobl anabl

**Os ydych yn recriwtio pobl anabl, mae llawer o gefnogaeth ar gael:**

### Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru

Mae Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru ar gael i ddarparu cymorth i gyflogwyr mawr a grwpiau o gyflogwyr, ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ar faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr anabl, gan gynnwys gwybodaeth am y Model Cymdeithasol o Anabledd a'r cynllun Hyderus o ran Anabledd.  Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: **HCPA@llyw.cymru**

### Cynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru

Mae Cynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i fusnesau bach a chanolig a busnesau newydd ar recriwtio gweithwyr anabl. Byddant yn bwynt cyfeirio, gan eich helpu i ddenu, recriwtio a chadw pobl anabl yn eich busnes. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **Busnes Cymru** ar **03000 6 03000.**

### Mynediad at Waith

Cynllun gan Lywodraeth y DU yw Mynediad at Waith a all eich cefnogi i recriwtio a chadw gweithwyr anabl. Gall gweithwyr anabl fod yn gymwys am gymorth ariannol i ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud â chyfweliadau a gwaith. Am fwy o wybodaeth, chwiliwch am **Mynediad at Waith.**

### Rhaglenni Recriwtio a Hyfforddi

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i helpu busnesau i recriwtio a hyfforddi. Mae rhaglenni sy'n cynnwys Prentisiaethau, Twf Swyddi Cymru+, ReAct+ a Cymunedau am Waith+ yn cynnig cymorth amrywiol, gan gynnwys cefnogaeth ac arweiniad, hyfforddiant, grantiau a chymorthdaliadau cyflog i'w gwneud yn haws i chi dyfu ac uwchsgilio eich gweithlu. Mae rhai rhaglenni'n cynnig cymhelliant ariannol i gyflogwyr sy'n recriwtio gweithwyr anabl. Am fwy o wybodaeth, chwiliwch am **Recriwtio a Hyfforddi Busnes Cymru.**

### Hyderus o ran Anabledd

Mae dod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn dangos eich bod yn croesawu ceisiadau gan unigolion anabl a gall eich helpu i ddenu mwy o ymgeiswyr anabl, gan agor eich busnes i gronfa ehangach o dalent. Bydd cofrestru ar gyfer y cynllun yn rhoi'r holl adnoddau sydd eu hangen arnoch chi i ddod yn Hyderus o ran Anabledd.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch: **HCPA@llyw.cymru** neu chwiliwch am Hyderus o ran Anabledd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Busnes Cymru
Business Wales

# Support to help you recruit disabled people

**If you're recruiting disabled people, there's lots of support available:**

### Welsh Government Disabled People's Employment Champions

The Welsh Government's Disabled People's Employment Champions are available to provide support to large employers and employer groups, across the public and private sectors, on all matters relating to the recruitment and retention of disabled workers, including information on the Social Model of Disability and the Disability Confident scheme. For more information contact: **DPEC@gov.wales**

### Business Wales Disabled People's Employment Advisers

The Business Wales Disabled Peoples Employment Advisors provide practical advice and guidance to SMEs and business start-ups on the recruitment of disabled workers. They will be a point of referral, helping you to attract, recruit, and retain disabled people in your business. For more information contact **Business Wales** on **03000 6 03000.**

### Access to Work

Access to Work is a UK Government scheme that can support you to recruit and retain disabled workers. Disabled workers may be eligible for financial support to cover any additional costs related to interviews and work. For more information, search **Access to Work.**

### Recruitment and Training Programmes

The Welsh Government offers a wide range of support to help businesses recruit and train. Programmes, including Apprenticeships, Jobs Growth Wales+, ReAct+ and Communities for Work+ offer various support including advice and guidance, training, grants and wage subsidies to make it easier for you to grow and upskill your workforce. Some programmes offer a financial incentive to employers who recruit disabled workers. For more information search **Business Wales Recruit and Train.**

### Disability Confident

Becoming a Disability Confident employer shows that you welcome applications from disabled individuals and can help you attract more disabled candidates, opening your business up to a wider talent pool. Signing up for the scheme will provide you with all the resources you need to become Disability Confident.

For more information, e-mail: **DPEC@gov.wales** or search Disability Confident

Llywodraeth Cymru
Welsh Government